TYSTYSGRIF SGILIAU IAITH

2019 – 2020

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG





BETH YW'R DYSTYSGRIF?

Mae myfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog yn fwy tebygol o gael swydd dda wrth raddio. Bydd ennill y Dystysgrif yn gymorth i chi wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.


Os ydych yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru, mae'r Dystysgrif yn cynnig ffordd o ennill cymhwyster i gydnabod eich sgiliau yn y Gymraeg. Mae'n dystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu'n gywir, yn hyderus ac yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio'n arbennig er mwyn rhoi prawf ar y sgiliau iaith fydd eu hangen arnoch wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau proffesiynol. Achredir y Dystysgrif gan CBAC.

Pam cofrestru ar gyfer y dystysgrif?



https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=4001~4f~EiCZuTCf






COFRESTRU
WWW.
COLEGCYMRAEG
.AC.UK/TSI
DYDDYFODOLDI
@COLEGCYMRAEG
Apple: dangos y cod uchod i gamera dy ffôn
Android: dangos y cod i'r camera + gwasgu'r botwm cartref

YR ASESU

Y Cyflwyniad Llafar
50%
(Dyddiad i'w gadarnhau)

Asesiad Ysgrifenedig
50%

6ed o Fai 2020

GRADDAU

GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Mae dwy ran i’r Dystysgrif, sef y Cyflwyniad Llafar a’r Arholiad Ysgrifenedig.

Mae pedwar canlyniad posibl ar gyfer y Dystysgrif:

- Rhagoriaeth
- Clod
- Llwyddo
- Methu.

Fel arfer, y trothwy llwyddo fydd 50% i bob cydran, sef y cyflwyniad llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Gall yr union drothwyon ar gyfer y gwahanol raddau newid wrth i'r asesiadau gael eu dyfarnu.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn marc allan o 100 ar gyfer y ddwy gydran. Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.

COFRESTRU

Yn gyntaf rhaid ymaelodi gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymaelodi

Yna, cofrestrwch ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Iaith

